# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 1

RHESTRU ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG

*Adolygu penderfyniadau rhestru*

### 81 Adolygu penderfyniad i restru adeilad

(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhestru adeilad, rhaid i'r hysbysiad o dan adran 77(1) ddatgan y caiff unrhyw berchennog neu unrhyw feddiannydd ar yr adeilad wneud cais i Weinidogion Cymru yn gofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

(2) Ni chaniateir gwneud cais ond ar y sail nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

(3) Pan fo perchennog neu feddiannydd yn gwneud cais am adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru benodi person—

(a) i gynnal yr adolygiad, a

(b) i wneud penderfyniad ar yr adolygiad.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau bennu disgrifiadau o achosion pan fydd rhaid iddynt hwy, yn hytrach na pherson a benodir ganddynt, gynnal adolygiad a gwneud penderfyniad arno.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddiwygiad i'r rhestr a gynhelir o dan adran 76 y maent yn ystyried ei fod yn briodol i roi effaith i benderfyniad ar adolygiad.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (2)—

(a) i ychwanegu sail ar gyfer adolygiad;

(b) i addasu sail ar gyfer adolygiad;

(c) i ddileu sail ar gyfer adolygiad.

## 82 Darpariaeth atodol ynghylch adolygiadau

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y ffurf a'r ffordd y mae rhaid i gais o dan adran 81 gael ei wneud;

(b) yr wybodaeth y mae rhaid ei darparu i Weinidogion Cymru, neu y gall fod yn ofynnol ganddynt, mewn cysylltiad â chais;

(c) y cyfnod y mae rhaid i gais gael ei wneud ynddo.

(2) Rhaid i adolygiad o dan adran 81 gael ei gynnal mewn un neu ragor o'r ffyrdd a ganlyn (fel y'i penderfynir gan y person sy'n cynnal yr adolygiad)—

(a) drwy ymchwiliad lleol;

(b) drwy wrandawiad;

(c) ar sail sylwadau ysgrifenedig.

(3) Pan fo adolygiad yn cael ei gynnal gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru, mae gan y person a benodir yr un pwerau a'r un dyletswyddau mewn perthynas â'r adolygiad ag sydd gan Weinidogion Cymru o dan—

(a) unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 175 (gofynion gweithdrefnol), a

(b) adrannau 180 a 181 (costau Gweinidogion Cymru a chostau partïon).

(4) Pan fo adolygiad yn cael ei gynnal drwy ymchwiliad lleol, mae adran 177 (pŵer i wneud tystiolaeth yn ofynnol) yn gymwys i'r ymchwiliad fel y mae'n gymwys i ymchwiliad a gynhelir o dan Ran 5.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad ag adolygiadau o dan adran 81.

(6) Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch swyddogaethau personau a benodir gan Weinidogion Cymru i gynnal adolygiadau o dan adran 81.